# Prifysgol Abertawe

Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN07:

- **Gwydr**

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Ben Harris (Swyddog yr Amgylchedd) |
| **Cymeradwywyd gan:** | Teifion Maddocks (Rheolwr Cynaliadwyedd) |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |
| **Dyddiad y fersiwn:** | 06/03/2026 |

| Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN07<br>Gwydr | |
|---|---|
| Lleoliad Cynhyrchu | Amrywiol |
| Côd Gwastraff Ewropeaidd (EWC) | 20 01 02 |
| Math | Absoliwt dim perygl |
| Dull gwaredu | Didoli i'w ailgylchu |
| Math o fin/bag | Biniau olwyn 240l allanol / sach glir |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

**20 01 02 -** Gwydr

Rhaid i unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff ddosbarthu ei wastraff yn gywir, cymhwyso egwyddorion yr Hierarchaeth Wastraff, a cheisio lleihau faint o wastraff a anfonir i'w waredu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei wahanu yn ei darddle a'i waredu drwy'r ffyrdd cywir.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddidoli ei gwastraff cyn ei waredu a chanolbwyntio ar ddidoli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastigau, bwyd a gwydr. Mae didoli deunyddiau cyn eu gwaredu yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Mae'r Rheoliadau yn nodi bod yn rhaid casglu deunyddiau fel papur, metel, plastig a gwydr ar wahân os oes angen annog ailgylchu'r deunydd mewn modd o safon.

Er nad yw'n beryglus yn ôl ei ddosbarthiad, mae'n ofyniad cyfreithiol dan Reoliadau Gwastraff Peryglus i wahanu gwastraff peryglus oddi wrth wastraff nad yw'n beryglus i sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei ddosbarthu'n gywir. Gall gwaredu gwastraff peryglus yn anghywir drwy ffrwd gwastraff trefol cyffredinol arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio.

Yn ogystal, ym mis Ebrill 2024 cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd sy'n berthnasol i bob busnes yng Nghymru. Mae gofyniad cyfreithiol i wahanu o dan y rheoliadau canlynol: Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023.

Mae ailgylchu gwydr yn arbed tua 50% o'r ynni sydd ei angen i gynhyrchu gwydr newydd. Mae pob tunnell o wydr wedi'i ailgylchu yn atal tua 230 cilogram o wastraff mwyngloddio, gan helpu i leihau diraddiad amgylcheddol a chadw adnoddau. Oherwydd y gellir toddi ac ail-fowldio gwydr dro ar ôl tro heb golli fawr ddim o ran ansawdd, mae'n ddeunydd delfrydol ar gyfer ailgylchu parhaus.
Bydd ailgylchu gwydr yn cynnwys eitemau ailgylchadwy fel:

- Poteli a chynwysyddion gwydr ar gyfer bwyd a diodydd
- Jariau gwydr ar gyfer bwyd
- Jariau gwydr ar gyfer coffi

## Eitemau

Dylid rhoi gwastraff gwydr yn y biniau gwastraff cyffredinol allanol dynodedig yn unig. Ar gyfer unrhyw ddeunydd sydd â chyfansoddiad a/neu halogiad anhysbys, cysylltwch â'r tîm Cynaliadwyedd (**estates-waste@abertawe.ac.uk**) am arweiniad a rhagor o fanylion.

Ni ddylid, **o dan** unrhyw amgylchiadau:

(a) roi unrhyw deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn y bin gwastraff na fydd yn cael ei ailgylchu (y bin du) - mae'n dargyfeirio deunydd gwerthfawr rhag cael ei adfer neu ei ailgylchu ac mae opsiynau ar gael
(b) rhoi **gwydr halogedig** yn y bin ailgylchu gwydr. Er enghraifft, rhaid golchi jariau bwyd gwydr pan fo'n bosibl i gael gwared ar weddillion bwyd

Ceir rhagor o ganllawiau ynghylch beth yw deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn Casglu deunyddiau gwastraff ar wahân ar gyfer ailgylchu: côd ymarfer Cymru - Atodiad 1

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

### Biniau Mewnol

Oherwydd risgiau i iechyd a diogelwch a'r cyfeintiau isel o wydr sy'n cael ei werthu a'i gynhyrchu ar y campws, ceir biniau ailgylchu gwydr dim ond mewn ardaloedd allweddol fel storfeydd biniau a ger siopau fel y tu allan i Dŷ Fulton lle mae diodydd mewn poteli gwydr ar werth.

### Biniau Allanol

Mae gan y Brifysgol finiau olwyn gwyrdd allanol 240l ym mhob storfa gwastraff allanol ar draws Gampws Singleton a Champws y Bae y Brifysgol, yn ogystal â'i safleoedd lloeren.



Ffigur 1 – Bin Olwyn Gwydr 240l allanol Prifysgol Abertawe

Rinsiwch jariau bwyd a photeli diodydd pan fo'n bosibl cyn rhoi eitemau yn y biniau ailgylchu gwydr allanol. Ni ddylid rhoi eitemau fel poteli a llestri gwydr sy'n cynnwys sylweddau peryglus yn y bin ailgylchu gwydr allanol. Gweler **WMGN23 Gwydr ac Eitemau Miniog Gwydr o'r Labordy** am arweiniad ar waredu gwydr o'r labordy.

**Lleoliadau Storfeydd Gwastraff Allanol a Gwybodaeth am y Rheini**

**Campws y Bae:**
- Yr Iard Wasanaeth
- Llyfrgell y Bae
- Y Twyni
- Adeilad Gogleddol Peirianneg

**Campws Singleton:**
- Keir Hardie*
- Llyfrgell a Chanolfan Gwybodaeth
- Tŵr Faraday*
- Talbot
- Grove*
- Tŷ'r Undeb
- Preseli*
- Langland*
- ILS1*
- Llyr

* Mae biniau Ewro 1100L allanol ar gyfer y storfeydd hyn bellach yn cael eu storio mewn unedau wedi'u gorchuddio dan glo:



Ffigur 3 - Campws Singleton: Storfeydd allanol wedi'u gorchuddio i finiau Ewro 1100L

Os oes angen, gellir rhannu'r côd mynediad ar gyfer y storfeydd ar gais drwy e-bostio estates-waste@abertawe.ac.uk

**Rhowch wybod am unrhyw ddifrod i'r storfeydd, neu broblemau mynediad, cyn gynted â phosibl drwy Ddesg Gymorth Ystadau**

## Cost Gwaredu

| |
|---|
| Mae cost y gwaith casglu ac ailgylchu wedi'i chynnwys yn narpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol; felly, nid oes unrhyw gost uniongyrchol i unigolion/Cyfadrannau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol. Fodd bynnag, gall pawb wneud gwahaniaeth i leihau costau ariannol ac amgylcheddol sylweddol y gwastraff hwn na ellir ei ailgylchu a chyfrannu at darged y Brifysgol o gyflawni cyfradd o 75% o ran dargyfeirio gwastraff o safleoedd EfWTroi Ynni yn Wastraff) neu safleoedd tirlenwi drwy ddefnyddio'r llif gwastraff cyffredinol dim ond pan fo angen, gan leihau'r effaith amgylcheddol a chefnogi'r Economi Gylchol. |
| **Labelu**<br><br>Gweler y templed |
| Am ragor o arweiniad, e-bostiwch estates-**waste@abertawe.ac.uk** |


glass
gwydr